# Arolygiad dan Adran 10
# Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996

## Ysgol Gynradd Rhydypennau
## Bow Street,
## Ceredigion, SY24 5AD

**Rhif yr Ysgol: 667/2316**

**Dyddiad yr Arolygiad: 3-5 Mai, 2005**

**gan**

**Dr David Evans**
**W268/78706**

**Dyddiad: 8 Gorffennaf 2005**

**Dan rif contract Estyn: T/218/04P**

© Hawlfraint y Goron 2005

Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r Adroddiad hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na'r gost o atgynhyrchu ar eraill sy'n gwneud cais am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Rhydypennau fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr Adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant. Anfonir copi o'r crynodeb hwn at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. Gellir cael yr adroddiad llawn o'r ysgol.

Cynhaliwyd arolygiad o Ysgol Gynradd Rhydypennau rhwng 3-5 Mai, 2005. Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o arolygwyr, dan arweinyddiaeth Dr David Evans. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad cryno hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ond yn ei gyfanrwydd yn unig a chyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu air am air heb ei addasu, a bod y ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.
Mae'r graddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | da gyda nodweddion eithriadol |
| **Gradd 2** | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | nodweddion da yn gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | llawer o ddiffygion pwysig |

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfarthrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B 1 | B 2 | B 3 | B 4 | B 5 | B 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B 7 | B 8 | B 9 | B 10 | B 11 | B 12 | B 13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn y mae'r ysgol yn mynd i wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol

| **Cynnwys** | | **Tudalen** |
|---|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| **Cyd-destun** | | 1 |
| **Crynodeb** | | 2 |
| **Argymhellion** | | 7 |
| **Safonau** | | 8 |
| Cwestiwn allweddol 1: | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 8 |
| **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant** | | 10 |
| Cwestiwn allweddol 2: | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 10 |
| Cwestiwn allweddol 3: | Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 11 |
| Cwestiwn allweddol 4: | Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr? | 13 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | | 14 |
| Cwestiwn allweddol 5: | Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | 14 |
| Cwestiwn allweddol 6: | Pa mor dda y  mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 15 |
| Cwestiwn allweddol 7: | Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 16 |
| **Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu** | | 17 |
| Blynyddoedd Cynnar | | 17 |
| Saesneg | | 19 |
| Mathemateg | | 20 |
| Gwyddoniaeth | | 21 |
| Dylunio a thechnoleg | | 22 |
| Hanes | | 22 |
| **Ymateb yr ysgol i'r arolygiad** | | 24 |
| **Atodiadau** | | |
| A | Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol | 25 |
| B | Data a dangosyddion yr ysgol | 25 |
| C | Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2004 | 26 |
| Ch | Sail dystiolaeth yr arolygiad | 28 |
| D | Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu | 29 |

# Cyd-destun

## Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Gynradd Rhydypennau ym mhentref Bow Street, rhyw bedair milltir i'r gogledd o Aberystwyth ar y brif ffordd sy'n arwain i Fachynlleth. Mae'r ysgol ar ddau safle: y plant meithrin a'r dosbarth derbyn yn adeilad yr hen ysgol, sydd gryn bellter o'r prif adeilad; a gweddill y dosbarthiadau (Bl 1-6) yn y prif adeilad, a agorwyd ym 1973.

2. Disgrifir yr ardal breswyl y daw'r disgyblion ohoni fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Tua 18% o'r disgyblion sy'n dod o aelwydydd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Mae 7% o'r disgyblion yn derbyn cinio rhad ac am ddim a dynodwyd 55 (29%) a chanddynt anghenion addysgol arbennig (AAA), yn cynnwys 10 (5%) disgybl gyda datganiad o AAA.

3. Apwyntiwyd y pennaeth a'r dirprwy bennaeth newydd ym mis Medi 2002, a chynhaliwyd awdit o'r ysgol gyfan.

4. Ar hyn o bryd mae 192 o ddisgyblion ar y gofrestr.

5. Dynodir yr ysgol yn Gategori A. Golyga hyn mai'r Gymraeg yw'r prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol ond anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd.

6. Mae'r ysgol yn anelu at,"dyfu a dysgu gyda'n gilydd ac i ddatblygu pob unigolyn i'w lawn botensial mewn amgylchedd hapus a Chymreig."

7. Arolygwyd yr ysgol yn flaenorol ym mis Ebrill 1999.

## Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

8. Mae prif flaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar gyfer 2005-2006 yn cynnwys:

- magu agwedd positif at Gymreictod a defnyddio'r Gymraeg;
- codi safonau ym mherfformiad y disgyblion;
- darparu digon o amser digyswllt i'r staff er mwyn datblygu ymhellach hunan-arfannu a gwella'r ysgol;
- datblygu cynlluniau gweithredol i fonitro ymddygiad yn yr ysgol gan ymgynghori â'r Cyngor Ysgol;
- rhoi sylw i'r adeiladau, a cheisio cael nawdd i gefnogi'r gwaith;
- cefnogi rhaglen hunan arfarnu a gwella'r ysgol i wneud yn siwr fod yna ddigon o adnoddau newydd i hyrwyddo'r cynlluniau gwaith yn llawn;

## Crynodeb

9. Mae Ysgol Gynradd Rhydypennau yn ysgol dda lle ceir ymdeimlad o bwrpas ac ymroddiad. Mae nodweddion eithriadol yn yr addysgu ac yn y gofal, yr arweiniad a'r cymorth a roddir i'r dysgwyr. Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad a chefnogaeth gadarn i'r athrawon ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

10. Mae'r tîm arolygu yn cytuno gyda barn yr ysgol mewn pedwar cwestiwn allweddol; lle mae gwahaniaeth, mae'r tim arolygu wedi rhoi gradd sydd yn uwch.

### Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

11. Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

| Cwestiwn allweddol | | Gradd yr arolygiad |
|---|---|---|
| 1 | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 2 |
| 2 | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 1 |
| 3 | Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 2 |
| 4 | Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr? | 1 |
| 5 | Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | 1 |
| 6 | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 2 |
| 7 | Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 2 |

### Safonau

12. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 25% | 71% | 4% | 0% | 0% |

13. Mae safonau'r disgyblion yn y gwersi yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar gyfer Cymru gyfan.

14. Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Iaith, llythrennedd a chyfathrebu | 1 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol | 1 |
| Datblygiad mathemategol | 1 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | 1 |
| Datblygiad creadigol | 1 |
| Datblygiad corfforol | 1 |

15. Yn CA1 a CA2, yn y pynciau a arolygwyd, mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

| Pwnc | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Saesneg | - | Gradd 2 |
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Gwyddoniaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Dylunio a Thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Hanes | Gradd 2 | Gradd 2 |

16. Mae'r plant o dan bump oed yn gwneud cynnydd da gyda rhai nodweddion eithriadol yn y medrau allweddol siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu, defnyddio eu medrau rhifedd, yn eu defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn eu medrau addysg bersonol a chymdeithasol ac yn eu medrau creadigol.

17. Gwna'r disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig(AAA) gynnydd da, ac maent yn cyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer.

18. Yn CA1 a CA2, mae safonau a chynnydd disgyblion yn y medrau allweddol mewn siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig. Mae safonau medrau rhifedd a thechnoleg a gwybodaeth yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

19. Mae safonau hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn dangos cynnydd da. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol yn eu medrau personol, cymdeithasol a creadigol. Maent yn gwneud cynnydd da yn eu medrau datrys problemau.

20. Yn CA1 ar ddiwedd 2004, roedd perfformiad y disgyblion yn y pynciau craidd, sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn ôl asesiad athrawon tipyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r awdurdod lleol. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol hefyd yn is na'r canolrif. Fodd bynnag, mae canlyniadau y ddwy flynedd gynt yn uwch na chanlyniadau cenedlaethol ac yn uwch na chanlyniadau'r Awdurdod Addysg Lleol(AALl).

21. Yn CA2 yn 2004, roedd cyrhaeddiad y disgyblion yn y pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Ym mathemateg, roedd y cyfartaledd tipyn yn is na'r un cenedlaethol. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol yn y chwartel isaf ym mhob un o'r pynciau. Roedd perfformiad y bechgyn yn sylweddol is na pherfformiad y merched yn y pynciau craidd. Fodd bynnag, mae canlyniadau y ddwy flynedd gynt yn dangos cynnydd cyson. Nodir bod canlyniadau'r profion ac asesiadau athrawon y llynedd wedi eu heffeithio'n fawr gan y ganran o ddisgyblion ag AAA yn y dosbarth.

22. Mae agweddau disgyblion at eu gwaith yn dda. Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion yn dda iawn ac yn gryfder yn yr ysgol.

23. Trwy'r ysgol, mae dealltwriaeth disgyblion o faterion cyfle cyfartal yn dda. Maent yn parchu amryfaliaeth o fewn credoau a thradodiadau eraill mewn cymdeithas.

24. Cyfartaledd y presenoldeb ar gyfer y thri tymor cyn yr arolwg yw 95.6 %. Mae'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

**Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

25. Barnwyd bod ansawdd yr addysgu a arsylwyd fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 31% | 66% | 3% | 0% | 0% |

26. Mae canran y gwersi sy'n dda neu'n well yn llawer uwch na tharged LlCC o 50% o wersi yn dda neu yn well.

27. Yn y gwersi a farnwyd yn dda gyda rhai nodweddion eithriadol, mae'r nodweddion yn cynnwys cyflwyniadau eglur ar ddechrau gwers, amrywiaeth pwrpasol o dechnegau a strategaethau addysgu, disgwyliadau uchel, cyflymdra heriol yn y gwersi, gwybodaeth dda o'r pynciau, rheolaeth dosbarth effeithiol iawn, holi hyderus a cydweddu rhagorol rhwng y gweithgareddau ag anghenion disgyblion unigol.

28. Mae ansawdd yr asesu yn dda gyda rhai nodweddion eithriadol. Mae'r asesiadau'n gywir a chyson. Mae athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac mae systemau hynod o drefnus a phwrpasol iawn yn eu lle i sicrhau bod cynnydd y disgyblion yn cael ei gofnodi'n gyson.

29. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd dda. Rhoddant ddarlun gonest a chywir o gyflawniad a datblygiad y disgyblion unigol.

30. Mae'r cwricwlwm ar gyfer plant dan bump oed yn dda gyda nodweddion eithriadol ar draws y chwe maes.

31. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu'r disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn cwrdd â gofynion statudol. Mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu cynhwysiad cymdeithasol ymhob agwedd o fynediad a chyfleoedd cyfartal. Ceir darpariaeth da ar gyfer disgyblion ag AAA.

32. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda iawn i ganllawiau ACCAC parthed Addysg Bersonol a Chymdeithasol(ABCh).

33. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda iawn.

34. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth byd eang yn dda.

35. Mae'r cwricwlwm Cymreig yn elfen amlwg yn y ddarpariaeth gyda phwyslais da iawn ar y gymuned leol. Mae'r berthynas gyda sefydliadau lleol yn dda iawn. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n gyson gyda'r rhieni ac mae'r bartneriaeth gyda hwy yn dda iawn.

36. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr yn dda iawn. Mae disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac mae perthynas dda rhyngddynt ag athrawon. Mae'r ysgol yn gymuned glos, gydag ethos gofalgar a chyfeillgar.

37. Mae lles y disgyblion yn flaenoriaeth uchel gan yr ysgol. Mae'r berthynas dda iawn rhwng yr ysgol a mudiadau yn y gymuned yn hyrwyddo iechyd a diogelwch y disgyblion mewn modd cadarnhaol, ac yn cyfrannu'n dda iawn at faes ABCh.

38. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda iawn. Derbynia'r disgyblion ag AAA gefnogaeth dda iawn gan yr athrawes arbenigol a chynorthwy-yddion.

39. Mae'r polisiau ar gyfer addysg rhyw, ymarfer tân, cyfleoedd cyfartal a chydraddoldeb hiliol wedi'u sefydlu'n gadarn ac yn hysbys i'r staff.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

40. Caiff yr ysgol ei rheoli'n dda iawn. Mae rheolaeth y pennaeth yn bwrpasol, uchelgeisiol ac yn effeithiol iawn. Rhydd ymdeimlad cryf o gyfeiriad pendant i waith yr ysgol. Mae rôl y dirprwy hefyd wedi ei ddiffinio'n eglur; mae'n magu sgiliau rheolaethol da o gymorth amlwg i'r pennaeth. Crewyd amgylchedd o ymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth ymhlith y staff i gyd.

41. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda iawn i flaenoriaethau cenedlaethol ac mae pwyslais cyson ar gynhwysiad cymdeithasol yn nodwedd arbennig ym mywyd yr ysgol.

42. Mae staff hŷn sydd â chyfrifoldebau arweinyddiaeth a rheolaeth yn cyfrannu'n effeithiol iawn i wella safonau ac i ddatblygiad yr ysgol yn gyffredinol.

43. Mae gan aelodau o'r corff llywodraethu ddealltwriaeth dda o'u rôl ac o'u cyfraniad i gynllunio strategol yr ysgol. Dangosant ddiddordeb brwd yn eu gwaith a chyflawnant eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

44. Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff wedi ymrwymo i wella safonau. Caiff yr holl staff eu cynnwys yn y broses hunanarfarnu, ac mae'r llywodraethwyr hefyd yn chwarae rhan ymarferol mewn monitro gwersi. Mae rôl yr arweinwyr cwricwlwm yn datblygu'n dda.

45. Gwneir dadansoddiad manwl o ystod o ganlyniadau profion disgyblion. Gwneir defnydd da o'r dadansoddiad hyn i wella'r addysgu a'r dysgu.

46. Mae'r CDY yn ddogfen ddefnyddiol, ond mae diffyg manylder yn y ddogfen parthed blaenoriaethau.

47. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gryno, yn eglur, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

48. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

49. Mae gan yr ysgol gyflenwad da o staff addysgu ac mae ganddynt gymwysterau priodol. Gwneir defnydd da ar draws yr ysgol o arbenigedd athrawon wrth iddynt gyfnewid dosbarthiadau ar gyfer meysydd addysgu.

50. Gwneir defnydd da iawn o'r athrawes sy'n cefnogi disgyblion ag AAA. Mae'r cynorthwy-yddion dosbarth yn cael eu defnyddio'n bwrpasol bob amser. Mae staff ategol yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol iawn.

51. Mae gan yr ysgol gyflenwad digonol o adnoddau ar gyfer pob oedran a phwnc; mae llawer o ansawdd da ac maent wrth law. Mae'r llyfrgell newydd yn gaffaeliad arbennig i'r ysgol.

52. Mae'r ddwy safle yn cynnig amgylchedd diogel a dymunol iawn i ddisgyblion. Serch hynny, mae gwendidau i'r adeiladau ar y ddwy safle: yn yr hen ysgol mae darpariaeth toiledau yn annigonol ac yn anaddas; mae damprwydd yn treiddio'r muriau a'r llawr yn yr hen ysgol; yn y prif adeilad, mae prinder gofod mewn rhai dosbarthiadau yn llyffethair i ymdrechion yr athrawon a'r disgyblion i gyrraedd y safonau uchaf; mae'r prinder mewn cyflenwad toiledau i'r staff yn anaddas yn y prif adeilad.

53. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 parhau i gynnal y safonau da ac ymateb i'r her o dargedu rhagoriaeth ar draws yr ysgol;

A2 cynnal yr arfer dda o addysgu;

A3 datblygu cyfundrefn hunanarfarnu'r ysgol ymhellach;

A4 parhau gyda'r ymdrechion i wella safonau'r adeiladau;

.

## Safonau

**Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

54. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.

55. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd y safonau cyflawniad fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 25% | 71% | 4% | 0% | 0% |

56. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

57. Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

| **Meysydd Dysgu** | **Meithrin** | **Derbyn** |
|---|---|---|
| Iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 1 | Gradd 1 |

58. Yn CA1 a CA2, yn y pynciau a arolygwyd, mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

| **Pynciau** | **CA 1** | **CA 2** |
|---|---|---|
| Saesneg | - | Gradd 2 |
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Gwyddoniaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Dylunio a thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Hanes | Gradd 2 | Gradd 2 |

59. Gwna'r disgyblion ag AAA gynnydd da, ac maent yn cyflanwi'r targedau a osodir ar eu cyfer.

60. Mae'r plant o dan bump oed yn gwneud cynnydd da gyda rhai nodweddion eithriadol yn y medrau allweddol siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu, defnyddio eu medrau rhifedd, yn eu defnydd o TGCh, yn eu medrau addysg bersonol a chymdeithasol ac yn eu medrau creadigol.

61. Yn CA1 a CA2, mae safonau a chynnydd disgyblion yn y medrau allweddol siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig. Mae safonau medrau rhifedd a thechnoleg a gwybodaeth yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

62. Mae safonau hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn dangos cynnydd da gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn cyfathrebu'n rhwydd ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff dwyieithrwydd, ac yn arbennig datblygiad y Gymraeg, ei integreiddio'n effeithiol o fewn holl agweddau ar fywyd yr ysgol.

63. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu medrau personol a chymdeithasol. Mae eu medrau creadigol yn datblygu'n dda gyda nodweddion eithriadol. Mae'r cynnydd yn y medrau datrys problemau yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

64. Yn 2004 ar ddiwedd CA1, roedd perfformiad y disgyblion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn ôl asesiad athrawon tipyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r awdurdod lleol. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol hefyd yn is na'r canolrif. Fodd bynnag, mae canlyniadau y ddwy flynedd gynt yn uwch na'r canlyniadau cenedlaethol a chanlyniadau'r AALl.

65. Yn CA2 yn 2004, roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, sef Cymraeg, Saesneg, a gwyddoniaeth yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Ym mathemateg, roedd y cyfartaledd tipyn yn is na'r un cenedlaethol. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol yn y chwartel isaf ym mhob un o'r pynciau. Roedd perfformiad y bechgyn yn sylweddol is na pherfformiad y merched yn y pynciau craidd. Fodd bynnag, mae canlyniadau y ddwy flynedd gynt yn dangos cynnydd cyson. Nodir bod canlyniadau'r profion ac asesiadau athrawon y llynedd wedi eu heffeithio'n fawr gan y canran uchel o ddisgyblion ag AAA yn y dosbarth.

66. Mae agweddau disgyblion at eu dysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith, a'u gallu i ganolbwyntio yn dda. Ar y cyfan, gweithiant yn ddiwyd ar eu tasgau ac mae ganddynt falchder yn y modd y cyflwynant eu gwaith. At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ennill medrau, dealltwriaeth a gwybodaeth newydd.

67. Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn, yn gryfder yn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu a bywyd yr ysgol. Sylfeinir bywyd yr ysgol ar barch, ymddiriedaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion eraill. Mae'r disgyblion yn

gwrtais i'w gilydd, i'r staff ac ymwelwyr â'r ysgol, ac mae perthynas dda rhygddynt a'r staff. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o ddisgwyliadau a rheolau'r ysgol ac yn glynu atynt.

68. Trwy'r ysgol, mae dealltwriaeth disgyblion o faterion cyfle cyfartal yn dda. Maent yn parchu amryfaliaeth o fewn credoau, agweddau a thradodiadau diwylliannol mewn cymdeithas, tra fod y disgyblion hynaf yn ymateb yn aeddfed i gysyniadau megis goddefgarwch a chyfiawnder. Mae ymweliadau â'r gymuned leol a mannau o ddidordeb yn helpu ehangu dealltwriaeth disgyblion o'u cymuned.

69. Dros y tri thymor diwethaf, cyfartaledd presenoldeb ysgol oedd 95.6 y cant. Mae'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ac yn cynnal safon dda o bresenoldeb. Mae absenoldebau heb awdurdod yn gyson isel a chofrestrir yn statudol.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

### Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

### Gradd 1: Da gyda rhai nodweddion eithriadol

70. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a luniodd yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.

71. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 31% | 66% | 3% | 0% | 0% |

72. Mae canran y gwersi sy'n dda neu'n well llawer yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru parthed gwersi sy'n dda neu yn well.

73. Mewn cyfran helaeth o'r gwersi, mae'r addysgu ar lefel dda iawn, gyda ffocws, nodau ac amcanion eglur a chyson. Cynllunir ac adnoddir y gwersi yn arbennig o dda. Mae cynllunio'r athrawon yn y tymor canolig a'r tymor byr yn fanwl ac yn gynhwysfawr. Ceir cynllunio arbennig o dda ar gyfer y plant dan bump ar draws y chwe maes dysgu.

74. Mae'r berthynas dda sydd rhwng athrawon a disgyblion yn cyfrannu tuag at greu awyrgylch gwaith pwrpasol. Mae'r athrawon i gyd yn hyrwyddo ac yn darparu'n dda ar gyfer cyfle cyfartal yn eu dulliau addysgu.

75. Mewn dros traean o'r gwersi a arsylwyd, mae nodweddion eithriadol i'r addysgu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflwyniad eglur o'r nodau ac amcanion ar gychwyn y wers
- Amrywiaeth pwrpasol o dechnegau a strategaethau addysgu
- Disgwyliadau uchel

- Cyflymdra heriol yn y gwersi
- Gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth arbennig o dda o'r pynciau y maent yn eu haddysgu
- Rheolaeth dosbarth effeithiol iawn sy'n sicrhau canolbwyntiad da gan bob disgybl
- Holi hyderus sy'n galluogi disgyblion i ymchwilio i faterion i ddyfnder a manylrwydd cynyddol
- Cydweddu da iawn rhwng y gweithgareddau ag anghenion disgyblion unigol. Mae'r athrawon oll yn darparu tasgau gwahaniaethol o fewn eu gwersi i gwrdd â'r ystod gallu o blith y disgyblion

76. Yn y ganran fechan o wersi lle gwelwyd nodweddion da'n gorbwyso diffygion, nid yw nodau'r wers yn glir na'r tasgau yn ddigon heriol i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog; mae'r cyflwyniadau yn rhy hir a rhediad y wers yn araf.

77. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac mae'r sylwadau, fel arfer, yn cynnig arweiniad addas ar sut i wella'r gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r arfer gorau wedi ei ledaenu'n gyson drwy'r ysgol.

78. Mae ansawdd yr asesu'n dda gyda rhai nodweddion eithriadol. Mae'r asesiadau'n gywir a chyson, ac yn cwrdd â gofynion statudol, gan gynnwys y rhai ar gyfer AAA. Mae athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda iawn.
79. Gwneir defnydd eithriadol o asesiadau i wella cynllunio ac i nodi cryfderau a gwendidau disgyblion, er mwyn hyrwyddo cynnydd mewn dysgu.

80. Mae systemau hynod o drefnus a phwrpasol iawn yn eu lle i sicrhau bod cynnydd y disgyblion yn cael ei gofnodi'n gyson. Gwneir defnydd rhagorol o ganlyniadau profion cenedlaethol i archwilio a dadansoddi safonau ac i osod targedau.

81. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cydymffurfio â'r gofynion statudol, ac maent o ansawdd dda. Rhoddant ddarlun gonest a chywir o gyflawniad a datblygiad disgyblion unigol. Maent yn gosod targedau ar gyfer gwelliant.

**Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

82. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.

83. Mae'r cwricwlwm ar gyfer y plant dan bump oed yn dda gyda nodweddion eithriadol ar draws y chwe maes dysgu.

84. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu'r disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn cwrdd â gofynion statudol. Mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu cynhwysiad cymdeithasol ymhob agwedd o fynediad a chyfleoedd cyfartal, ac wedi strwythuro'n dda yn unol â phrif amcanion yr ysgol.

85. Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni astudio sydd wedi eu cynllunio'n fanwl ac maent ar gael i'r disgyblion oll, beth bynnag eu gallu, rhyw a chefndir diwylliannol. Ceir darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

86. Mabwysiadwyd cyfres o bolisiau ar gyfer pob pwnc o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae rhain yn ddogfennau cryno, sydd yn ystyried natur a gofynion unigryw pob pwnc yn ofalus. Mae cynlluniau gwaith yr athrawon hefyd yn dda a dangosant ddilyniant a pharhad y dysgu yn eglur.

87. Ym mhob pwnc, mae athrawon yn darparu'n ofalus ar gyfer datblygu'r medrau allweddol mewn llythrennedd a cyfathrebu, rhifedd a TGCh. Cynllunir ar gyfer y medrau creadigol yn dda o fewn y pynciau creadigol.

88. Mae defnydd o ddull trawsgwricwlaidd yn gryfder yn yr ysgol, ac yn ysgogi a chyfoethogi dysgu'r disgyblion.

89. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda iawn i ganllawiau ACCAC parthed Addysg Bersonol a Chymdeithasol(ABCh). Mae ganddynt bolisi clir a rhydd yr ysgol bwyslais arbennig ar ddatblygiad personol y disgyblion yn y sesiynau amser cylch. Caiff y disgyblion gyfrifoldebau, gan gynnwys cynrychiolaeth ar Gyngor Ysgol.

90. Mae gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm ac i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clybiau chwaraeon a chwarae ystod eang o offerynnau cerdd.

91. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda iawn. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gynyddol o berchnogaeth a chyfrifoldeb tuag at yr ysgol a'r amgylchedd. Yn y dosbarthiadau ac yn ystod cyfnodau addoli, mae disgyblion yn arddel parch ac yn mwynhau cyfleoedd i fyfyrio a gweddio mewn dull diffuant a thawel.

92. Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth dda o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth byd eang trwy ei gofal am amgylchedd yr ysgol, ei ffocws ar ailgylchu a'i gwaith mewn gwyddoniaeth a daearyddiaeth. Mae'r astudiaethau o fyd natur yn gwneud cyfraniadau pwysig parthed y materion hyn.

93. Trefnir ymweliadau gwerthfawr i atgyfnerthu gweithgareddau a chyfoethogi addysg y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Gwneir defnydd da iawn o ymwelwyr gan gynnwys arbenigwyr yn ymwneud â llenyddiaeth, y byd celf a natur.

94. Mae'r cwricwlwm Cymreig yn elfen amlwg yn y ddarpariaeth gyda phwyslais da iawn ar y gymuned leol. Hybir y diwylliant Cymreig trwy weithgareddau eraill yn ymwneud â mudiad yr Urdd. Datblygir ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ac amryfaliaeth y byd trwy eu gwaith mewn daearyddiaeth ac addysg grefyddol. Trwy gasglu at elusennau ar gyfer gwledydd llai ffodus maent yn sylweddoli eu cyfrifoldebau fel dinasyddion.

95. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n gyson gyda'r rheini ac mae'r bartneriaeth gyda hwy yn dda iawn. Arwyddodd y mwyafrif y cytundeb cartref ysgol a daw nifer i mewn i helpu gyda'r gwahanol gweithgareddau. Codir swm sylweddol o arian gan y rhieni.

96. Mae'r berthynas gyda'r gymuned yn dda iawn; mae'r ysgol yn chwarae rôl amlwg yng ngweithgareddau'r pentref. Daw gweinidogion lleol i'r gwasanaethau boreol o dro i dro a gwneir defnydd da o arbenigedd pobl y gymuned.

97. Mae cysylltiadau da rhwng y ddarpariaeth gwricwlaidd a byd gwaith. Trwy eu hymwneud â nifer o fentrau, mae'r disgyblion hynaf yn cynyddu eu dealltwriaeth o fyd busnes a menter.

98. Mae'r bartneriaeth a'r cysylltiadau gyda'r ysgolion uwchradd yn dda iawn ac yn cynnwys ymweliadau cyson rhwng athrawon yr ysgolion. Mae'r athrawon hefyd yn cyd-weithio ar brosiectau gwahanol parthed y pynciau dysgu. Mae'r disgyblion yn elwa ar gymorth myfyrwyr trwy bartneriaeth yr ysgol gyda cholegau hyfforddi athrawon.

## Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?

### Gradd 1: Da gyda rhai nodweddion eithriadol

99. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu'n cyd-fynd â'r farn a luniodd yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.

100. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr yn dda iawn. Mae disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac mae perthynas dda iawn rhyngddynt ag athrawon. Ceir ymdeimlad cryf o blith y disgyblion eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Cânt eu canmol a'u gwobrwyo am ymdrechion da. Mae'r rhieni hefyd â hyder yn y gofal a'r cyfarwyddyd a rydd yr ysgol.

101. Mae'r ysgol yn gymuned glos, gydag ethos gofalgar a chyfeillgar. Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn adnabod y disgyblion yn dda a derbyniant gyfarwyddyd personol ac addysgol o ansawdd eithriadol.

102. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o fwlio yn ystod yr arolwg, ond mae gan yr ysgol ganllawiau eglur i'r staff pe cyfyd yr angen. Mae'r rhieni a'r disgyblion yn adrodd fod y staff yn gweinyddu'r polisi a'r drefniadaeth yn effeithiol iawn.

103. Mae disgyblion newydd yn y dosbarth meithrin yn ymgartrefu'n gyflym ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae disgyblion sy'n dod i'r ysgol am y tro cyntaf a hwyr-ddyfodiaid yn cael cefnogaeth dda gan athrawon a chyfoedion wrth iddynt ddod i arfer â threfn ysgol newydd.

104. Mae lles y disgyblion yn flaenoriaeth uchel gan yr ysgol. Mae'r berthynas dda iawn rhwng yr ysgol a mudiadau yn y gymuned yn hyrwyddo iechyd a

diogelwch y disgyblion mewn modd cadarnhaol, ac yn cyfrannu'n dda iawn at faes ABCh.

105. Rhoddir sylw cyson i les personol y disgyblion unigol ac i faterion iechyd a diogelwch. Cymerir camau ymarferol da iawn i sicrhau diogelwch y disgyblion tra byddant yn yr ysgol, ac i fonitro prydlondeb a phresenoldeb.

106. Mae'r staff yn arddangos gwybodaeth dda iawn o'r canllawiau manwl sydd ar eu cyfer yn y maes amddiffyn plant, ac mae'r trefniadau gweithredu wedi'u sefydlu'n dda.

107. Mae'r polisiau ar gyfer addysg rhyw, ymarfer tân, cyfleoedd cyfartal a chydraddoldeb hiliol wedi'u sefydlu'n gadarn ac yn hysbys i'r staff.

108. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda iawn, ac yn cydymffurfio'n llwyr â'r Cod Ymarfer(CY). Gwneir defnydd effeithiol iawn o brofion safonol i adnabod anghenion yn gynnar. Derbynia'r disgyblion ag AAA gefnogaeth dda iawn gan yr athrawes arbenigol a chynorthwy-yddion i gyrraedd targedau addas a nodir yn y CAU.

109. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ôl eu gallu. Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol, ac mae'r cyswllt agos rhwng yr ysgol a rhieni yn hybu cynnydd disgyblion ag AAA.

110. Mae'r gwaith mewn nifer o bynciau yn adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddir o fewn yr ysgol i barch a goddefgarwch. Caiff y disgyblion gyfleoedd da i drafod materion dinasyddiaeth ar lefel lleol a byd-eang, ac mae eu hymwybyddiaeth o hyn yn dda iawn.

111. Mynega'r disgyblion eu bod yn hapus yn yr ysgol a'u bod yn teimlo y gallant rannu unrhyw broblemau gan gynnwys bwlian gyda'r athrawon. Ystyriant eu hathrawon yn ffrindiau iddynt

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?**

**Gradd 1: Da gyda rhai nodweddion eithriadol**

112. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.

113. Caiff yr ysgol ei rheoli'n dda iawn. Mae rheolaeth y pennaeth yn bwrpasol, uchelgeisiol ac yn effeithiol iawn. Rhydd ymdeimlad cryf o gyfeiriad pendant i waith yr ysgol. Mae rôl y dirprwy hefyd wedi ei ddiffinio'n eglur; mae'n magu sgiliau rheolaethol da o gymorth amlwg i'r pennaeth. Mabwysiadwyd nifer o nodau ac amcanion pwrpasol ar gyfer yr ysgol, a chânt eu hadlewyrchu'n

arbennig o dda yng ngwaith yr ysgol. Crewyd amgylchedd o ymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth ymhlith y staff i gyd.

114. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda iawn i flaenoriaethau cenedlaethol ac mae mentrau diweddar yn galluogi'r disgyblion i dyfu'n ddinasyddion aeddfed. Mae pwyslais cyson ar gynhwysiad cymdeithasol yn nodwedd arbennig ym mywyd yr ysgol. Caiff datblygiad Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu(TGCh) sylw dwys ym mhob dosbarth a gwneir defnydd effeithiol o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol.

115. Mae staff hŷn sydd â rolau arweinyddiaeth a rheolaeth yn cyfrannu'n effeithiol iawn i wella safonau ac i ddatblygiad yr ysgol yn gyffredinol. Ysgwyddant gyfran dda o gyfrifoldebau a darparant arweiniad clir i'w cyd-athrawon.

116. Gweithredir y drefn Rheoli Perfformiad yn effeithiol iawn. Mae'r amcanion y cytunir arnynt ar gyfer pob unigolyn yn cynnwys amcanion personol yn ogystal â rhai sy'n deillio o'r Cynllun Datblygu Ysgol(CDY). Darperir cyfleoedd da i athrawon roi sylw i'w Datblygiad Proffesiynol Parhaus(DPP).

117. Mae gan aelodau o'r corff llywodraethu ddealltwriaeth dda o'u rôl ac o'u cyfraniad i gynllunio strategol yr ysgol. Dangosant ddiddordeb brwd yn eu gwaith a chyflawnant eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae ganddynt adnabyddiaeth dda o'r ysgol ac maent wedi ymgymryd â'u cyfrifoldebau o fonitro ac arfarnu'r ddarpariaeth addysgol yn effeithiol.

**Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

118. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.

119. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu mewn pedwar o'r saith cwestiwn allweddol. Dengys tystiolaeth yr arolygiad bod yr ysgol wedi bod yn rhy geidwadol wrth ddyfarnu gradd 2 iddi ei hun yng nghwestiynau allweddol 2, 4 a 5. Dyfarnwyd gradd 1 i'r cwestiynau hynny gan y tîm arolygu.

120. Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff wedi ymrwymo i wella safonau. Caiff yr holl staff eu cynnwys yn y broses hunanarfarnu, ac mae'r llywodraethwyr hefyd yn chwarae rhan ymarferol mewn monitro gwersi. Mae rôl yr arweinwyr cwricwlwm yn datblygu'n dda gyda monitro cyson o safonau a darpariaeth er mwyn bwydo'r CDY.

121. Gwneir dadansoddiad manwl o ystod o ganlyniadau profion disgyblion, gan gynnwys canlyniadau profion gwaelodlin a phrofion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn CA1 a CA2. Gwneir defnydd da o'r dadansoddiad hyn i wella'r addysgu a'r dysgu, ac yn arbennig i dargedu disgyblion sydd angen sylw pellach, er mwyn sicrhau eu bod hwythau yn cael cyfle i gyflawni safonau uwch.

122. Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r hunan arfarniadau a'r CDY. Mae'r CDY yn ddogfen ddefnyddiol ar gyfer rhoi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol er bod diffyg manylder yn y ddogfen parthed y blaenoriaethau.

123. Mae'r adroddiad hunan arfarnu cryno a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn glir a darllenadwy. Mae o ansawdd da. Dengys bod diwylliant o hunan arfarnu wedi'i sefydlu yn yr ysgol a bod trefniadau yn parhau i esblygu wrth i staff ddod yn fwy profiadol a hyderus yn y maes.

124. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf wrth iddi fynd a'r afael â'r materion allweddol. Mae'r llwyddiant yma wedi cael effaith amlwg ar y safonau cyflawniad a'r addysgu yn arbennig.

**Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwr wrth ddefnyddio adnoddau?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

125. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.

126. Mae gan yr ysgol gyflenwad da o staff addysgu i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae gan yr athrawon gymwysterau priodol, ac mae'r cynllunio ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau yn dda. Dengys y staff ymrwymiad da i'r ysgol.

127. Gwneir defnydd da ar draws yr ysgol o arbenigedd athrawon wrth iddynt gyfnewid dosbarthiadau mewn gwahanol feysydd, er enghraifft, gwyddoniaeth, hanes, cerddoriaeth, dylunio a thechnoleg ac addysg gorfforol.

128. Gwneir defnydd da iawn o'r athrawes sy'n cefnogi disgyblion ag AAA, yr athrawon bro a'r athrawon teithiol cerdd. Mae cynorthwy-yddion dosbarth yn cael eu defnyddion'n bwrpasol bob amser. Mae staff ategol yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol iawn i hwyluso rhediad yr ysgol o ddydd i ddydd.

129. Mae athrawon yn mynychu cyrsiau Hyfforddiant-Mewn Swydd(HMS), gyda'u datblygiad proffesiynol wedi'i berthnasu'n agos iawn i flaenoriaethau'r ysgol. Gwelir effaith buddiol yr hyfforddiant yn y defnydd da o dechnoleg gwybodaeth mewn rhai dosbarthiadau.

130. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau ar gyfer pob oedran a phwnc, ac mae eu pryniant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol. Mae llawer o ansawdd da ac maent wrth law; gwneir defnydd cyson ac effeithiol ohonynt yn y gwersi. Mae'r llyfrgell newydd, ddeniadol yn gaffaeliad arbennig i'r ysgol.

131. Mae gan yr ysgol ddigon o offer ar gyfer datblygu medrau creadigol ac ymarferol y disgyblion. Gwneir defnydd da o gyfrifiaduron a'r byrddau gwyn rhyngweithiol.

132. Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw safonau uchel yr arddangosfeydd sy'n cyfrannu'n fawr at amgylchedd symbylus sy'n nodweddiadol o fywyd yr ysgol.

133. Mae'r gofalwyr a'r glanhawyr yn gweithio'n galed iawn i gadw'r ysgol yn lân ac yn daclus ar gyfer y disgyblion a'r staff.

134. Mae'r ddwy safle yn cynnig amgylchedd diogel a dymunol iawn i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae gwendidau i'r adeiladau ar y ddwy safle: yn yr hen ysgol mae darpariaeth toiledau yn annigonol ac yn anaddas; mae damprwydd yn treiddio'r muriau a'r llawr yn yr hen ysgol; yn y prif adeilad, mae prinder gofod mewn rhai dosbarthiadau yn llyffethair i ymdrechion yr athrawon a'r disgyblion i gyrraedd y safonau uchaf; mae'r prinder mewn cyflenwad toiledau i athrawon yn anaddas yn y prif adeilad.

135. Mae rheolaeth gyllidol yn dynn a'r corff llywodraethol yn monitro'r holl wariant yn effeithiol. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

### Pwnc 1: Plant dan bump oed

**Gradd 1: Da gyda rhai nodweddion eithriadol**

136. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

**Nodweddion da ac eithriadol**

**Datblygiad Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu: Gradd 1**

137. Mae'r plant meithrin yn gwrando'n dda ac yn dechrau dysgu geiriau bob dydd yn Gymraeg. Maent yn barod iawn i ailadrodd, cyfrif a chanu. Maent yn adnabod llythrennau cyfarwydd ac yn eu ffurfio mewn gwahanol ffyrdd a mwynhant wrando ar storiau.

138. Erbyn y dosbarth derbyn, mae'r plant yn datblygu yn eu dealltwriaeth o'r Gymraeg ac maent yn siarad yn hyderus. Mae'r plant yn gwerthfawrogi llyfrau ac yn eu trafod yn frwdfrydig. Maent yn adnabod nifer dda o lythrennau ac yn copio brawddegau syml. Mae'r plant sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg yn mynegi eu hanghenion a disgrifio eu teimladau'n hyderus.

**Datblygiad personol a chymdeithasol: Gradd 1**

139. Mae'r plant meithrin yn dysgu dod yn ffrindiau gan roi ystyriaeth i anghenion eraill. Maent yn diolch yn rheolaidd ac yn dechrau deall fod angen iddynt aros eu tro a rhannu teganau. Maent yn awyddus i helpu ei gilydd.

140. Gwna'r plant derbyn gynnydd amlwg mewn datblygiad personol a chymdeithasol. Maent yn ymateb yn briodol i drefn y dosbarth gan ddeall fod yn

rhaid iddynt aros eu tro a chyd-chwarae. Maent wedi ffurfio perthynas dda gyda'i gilydd ac oedolion a gofynnant am gymorth pan fod angen. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau ac yn cyflawni gweithgareddau yn annibynnol.

**Datblygiad mathemategol: Gradd 1**

141. Mae'r plant meithrin yn adrodd rhifau yn gywir ac maent yn gyfarwydd â nifer o rigymau perthnasol. Mae eu gallu i ddefnyddio iaith fathemategol yn datblygu'n dda iawn. Maent yn gallu dosbarthu gwrthrychau 'bach', 'canolig' a 'mawr' ac mae eu cysyniadau yn datblygu'n dda iawn.

142. Mae datblygiad mathemategol y plant derbyn yn dda iawn. Gallant gyfrif at 20 ac adnabod rhifau sy'n berthnasol. Gallant ddosbarthu gwrthrychau yn gywir yn ôl lliw a siâp a gallant greu a pharhau patrwm yn gywir.

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Byd: Gradd 1**

143. Drwy weithgareddau ymarferol a phrofiadau chwarae, mae gwybodaeth a dealltwriaeth y plant meithrin o'r byd yn datblygu'n dda iawn. Maent yn arbrofi a thrafod yr hyn wnânt wrth chwarae yn y twb tywod a'r twb dŵr. Gŵyr y plant meithrin am greaduriaiad a soniant yn fyrlymus am anifeiliaid.

144. Trwy nifer o weithgareddau a phrofiadau difyr, mae gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd y plant derbyn yn datblygu'n dda iawn. Maent yn defnyddio'r cyfrifiadur yn hyderus iawn. Gallant egluro beth sy'n digwydd yn ystod y dydd a'r nos. Gwyddant am bobl sy'n eu helpu ac am leoliad y pentref. Maent yn deall bod nifer o ffynonellau gwybodaeth ac ymatebant yn dda iawn i raglenni a llyfrau.

**Datblygiad creadigol: Gradd 1**

145. Mae'r plant meithrin yn gweithio'n hyderus iawn gyda gwahanol gyfryngau i greu lluniau hyfryd a modelau bywiog iawn. Maent yn canu'n swynol iawn, yn cadw rhythm yn dda iawn ac yn chwarae rôl yn fywiog yn y dosbarth.

146. Mae'r plant derbyn yn medru trafod eu hoff liwiau a chreu pethau gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau. Gallant greu darluniau, patrymau a gwaith tri-dimensiwn, gan gynhyrchu gwaith o safon uchel, gyda enghreifftiau rhagorol.

**Datblygiad corfforol: Gradd 1**

147. Gall y plant meithrin enwi rhannau'r corff ac maent yn deall eu bod yn tyfu. Defnyddiant offer gyda rheolaeth gynyddol. Wrth chwarae gyda theganau, amlygant rheolaeth dda, a gwnânt ddefnydd effeithiol o'r gwagle. Medrant efelychu symudiadau yn dda iawn a dangos ystwythder.

148. Gall y plant derbyn drafod offer wrth chwarae yn y tywod yn dda iawn. Gallant reoli eu dwylo wrth ddefnyddio offer bach mewn gweithgareddau bwrdd. Maent yn gwneud defnydd da iawn o ofod pan fyddant yn chwarae ar yr iard sydd ar eu cyfer. Gallant neidio, cerdded a chreu gwahanol siapiau gyda rheolaeth arbennig o dda.

**Diffygio**

149. Nid oes diffygion pwysig

## Pwnc 2: Saesneg

### Cyfnod Allweddol 2 – Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

**Nodweddion da**

150. Mae'r disgyblion yn gwrando yn dda ar gyflwyniadau'r athrawon gan ofyn cwestiynau perthnasol ac mae rhai disgyblion yn cynnig sylwadau estynedig. Gall y mwyafrif helaeth siarad yn hyderus gan ddefnyddio iaith safonol a chyfrannu'n berthansol at drafodaethau dosbarth mewn nifer o wahanol sefyllfaoedd. Maent yn mynegi barn a'i chyfiawnhau yn effeithiol ac yn disgrifio eu profiadau a'u syniadau'n eglur i grŵp, dosbarth cyfan neu oedolion. Gallant egluro eu gweithgareddau a'u safbwyntiau yn hyderus i ymwelwyr.

151. Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen yn rhugl gyda mynegiant clir a goslefu addas. Gallant ateb cwestiynau am nodweddion a chynnwys llyfrau a thrafod plot a chymeriadau. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddarllenant ac maent yn hyderus wrth fynegi barn am eu dewisiadau. Gall y plant mwyaf galluog ddarllen llyfrau heriol yn gyflym ac ystyrlon a chymharu llyfrau gan yr un awdur neu gan wahanol awduron. Gwna'r disgyblion llai galluog ymdrech deg i ddarllen llyfrau sy'n cyfateb i'w gallu. Llwyddant i ddehongli geiriau gan ddefnyddio strategaethau amrywiol.

152. Mae'r disgyblion trwy'r cyfnod allweddol yn ysgifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae disgyblion B3 a B4 yn datblygu eu dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng darllen ac ysgrifennu trwy ddarllen i ddilyn cyfarwyddiadau. Yn B5 a B6, mae'r disgyblion yn deall yr angen i amrywio iaith fel ymateb i wahanol ofynion a chynulleidfaoedd. Mae eu gwaith ysgrifenedig yn cynnwys llythyrau ffurfiol, storiau, cerddi a darnau disgrifiadol.

153. Mae'r disgyblion mwy galluog yn defnyddio nifer o batrymau brawddegau mewn paragraffau cydlynus. Gwnant ddefnydd cywir o ferfau, ansoddeiriau a chymariaethau.

154. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio geiriaduron yn gyson i atgyfnerthu eu gwaith ysgrifenedig.

**Diffygion**

155. Mae gwallau sillafu yn nodweddu gwaith nifer o ddisgyblion B3 a B4.

**Pwnc 3: Mathemateg**

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

156. Mae disgyblion CA1 yn cofio rhigymau rhif ac yn adalw ystod eang o waith blaenorol yn ôl eu hoedran a'u gallu. Deallant gysyniadau mathemategol o adio a thynnu a gallant adalw ffeithiau yn gyflym ac yn gywir.

157. Gall disgyblion CA1 adnabod rhifau odrif ac eilrif, a dyblu a haneru rhifau yn gyflym. Gall disgyblion hynaf ddarllen rhifau i fyny at 100 a gallant esbonio'n hyderus werth lle gwahanol ddigidau o fewn y rhif. Maent yn dehongli symbolau a rhai diagramau mathemategol yn gywir.

158. Mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag unedau mesur safonol, darnau sylfaenol o arian a chyfeiriadau. Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion enwi siapiau syml dau a thri-dimensiwn yn gywir.

159. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn medru cyfrifo'n sydyn wrth wneud mathemateg y pen a medrant egluro'n dda y dulliau a ddefnyddiant i ddod at ateb.

160. Yn CA2, mae disgyblion iau yn gwybod eu rhifau i fyny at 1000 a gallant adalw patrymau lluosi'n gyflym a hyderus. Mae gan y disgyblion hynaf wybodaeth dda o brosesau rhif ac mae eu strategaethau i ddelio â mathemateg y pen wedi cael eu datblygu'n dda.

161. Erbyn diwedd CA2, mae gan y disgyblion mwy galluog afael dda ar dablau lluosi a medrant gymhwyso'r wybodaeth hon i luosi rhifau dau a thri digid.

162. Mae disgyblion yn casglu a chyflwyno data at amrywiol ddibenion. Gall y disgyblion mwy galluog ddehongli data, gan ffurfio casgliadau yn seiliedig arnynt.

163. Mae'r disgyblion yn CA1 a CA2 yn defnyddio TGCh yn effeithiol i atgyfnerthu'r dysgu. Mae'r disgyblion yn ymateb yn briodol i gwestiynau mewn sefyllfaoedd dosbarth-cyfan a rhyngweithio yn dda wrth drafod problemau mathemategol mewn grwpiau.

164. Mae'r disgyblion yn cofnodi eu cyfrifiadau mathemategol yn daclus. Mae'r disgyblion mwy galluog yn cwblhau gwaith atodol priodol er mwyn ymestyn neu atgyfnerthu eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth.

165. Mae medrau'r disgyblion ar draws y ddau gyfnod allweddol wedi datblygu'n dda wrth ddatrys problemau a gwneud gwaith ymchwiliol.

**Diffygion**

166. Nid oes diffygion pwysig

## Pwnc 4: Gwyddoniaeth

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

167. Dengys disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol agweddau positif iawn tuag at y pwnc ac maent yn datblygu geirfa wyddonol dda, yn enwedig yn CA2 lle defnyddiant ystod helaeth o dermau.

168. Ar draws yr ysgol datblyga disgyblion ddealltwriaeth dda ac weithiau da iawn am elfennau o'r byd natur o'u cwmpas. Yn y ddau gyfnod allweddol, datblygant ddealltwriaeth dda am y ffactorau sy'n cyfrannu at fwyta a bywyd iach.

169. Datblyga disgyblion B1 a B2 wybodaeth dda am flodau ac anifeiliaid bach. Maent yn ymwybodol o rannau planhigion a'r hyn sydd angen arnynt er mwyn tyfu.

170. Ar draws CA1 mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd trydan yn eu bywydau yn ogystal â'u beryglon. Trwy arbrofi dônt i ddeall bod angen cylched cyflawn ar gyfer goleuo bwlb.

171. Ar draws CA2, mae disgyblion yn gallu disgrifio cynefinoedd gwahanol anifeiliaid a phlanhigion yn dda. Dengys disgyblion hynaf y cyfnod allweddol wybodaeth a dealltwriaeth dda am bwysigrwydd a swyddogaeth y gadwyn fwyd.

172. Dengys mwyafrif disgyblion B5 a B6 sgiliau arsylwi a thynnu casgliadau effeithiol wrth ganolbwyntio ar wahanol fathau o ddefnyddiau. Arbrofant yn effeithiol a gwnânt ddefnydd effeithiol o offer.

173. Mae disgyblion hynaf CA2 yn datblygu dulliau da o gofnodi arbrofion ymarferol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ofynion prawf teg, a deallant ei fod yn syniad da i ailadrodd arbrawf er mwyn sicrhau canlyniadau dibynadwy. Rhagfynegant yn synhwyrol a chyrhaeddiant ddamcaniaethau addas yn eu gwaith. Mesurant yn gywir mewn ystod eang o gyd-destunau ac unedau.

**Diffygion**

174. Nid oes diffygion pwysig.

## Pwnc 5: Dylunio a Technoleg

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim dyffygion pwysig**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

175. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio offer yn ddiogel, ac maent yn ymwybodol o risgiau a pheryglon. Maent hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd glendid wrth drin bwyd.

176. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau effeithiol o weithio'n annibynol, a gafael da ar y prosesau o ddylunio, gwneud, profi, gwerthuso a gwella.

177. Yn B2, mae disgyblion yn dylunio a gwneud pypedau bys a llaw effeithiol. Maent yn datblygu medrau torri allan ac addurno priodol, wrth ddewis deunyddiau, lliwiau a gwead gwahanol.

178. Datblyga disgyblion B3 a B4 sgiliau gwneud a gwerthuso da wrth ddefnyddio darn o ffelt i greu cas pensiliau. Gwneir defnydd da o dechnoleg gwybodaeth i greu patrymau ar y cyfrifiadur.

179. Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'r broses o adeiladu wrth greu modelau da o dai Celtaidd a Tuduraidd. Maent yn mesur deunyddiau ar gyfer y broses o wneud, ac yn dewis ffyrdd amrywiol o'u huno a'u haddurno. Mae eu medrau gwerthuso'n datblygu'n dda.

180. Mae disgyblion B6 yn dangos medrau dylunio da wrth ddechrau creu bagiau hamdden. Trafodant gwahanol nodweddion a gwnânt luniau effeithiol i fynegi eu syniadau ar bapur.

181. Mae disgyblion CA2 yn cydweithio'n dda a rhoddant wrandawiad teg i gyfraniadau eu cyd-ddisgyblion. Ymatebant yn synhwyrol i'r syniadau a gynigir gan eraill. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o ofynion iechyd a diogelwch wrth weithio gyda gwahanol offer a deunyddiau.

**Diffygion**

182. Nid oes diffygion pwysig

## Pwnc 6: Hanes

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2:  Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2:  Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

## Nodweddion da

183. Mae disgyblion CA1 yn deall y cysyniad o heddiw, ers talwm a blynyddoedd maith yn ôl yn dda. Gwnânt ddefnydd buddiol o linellau amser i hybu eu dealltwriaeth o dreigl amser.

184. Mae disgyblion CA1 yn cymharu ffordd o fyw ddoe a bywyd heddiw yn effeithiol iawn drwy edrych ar nifer o wahanol ffynonellau. Mae disgyblion B2 yn astudio hanes Daniel Evans a'i daith i'r Wladfa. Cynhyrchant lyfrau ac albwm hardd i bortreadu'r cyfnod. Gwnânt ddefnydd da o ddrama yn eu gwersi.

185. Mae gan ddisgyblion CA1 ymwybyddiaeth dda o bwrpas y gwahanol arteffactau hanesyddol sydd o gwmpas yr ysgol a gwyddant fod angen eu trin yn ofalus.

186. Gŵyr disgyblion CA1 a CA2 hanes nifer o enwogion Cymru a thu hwnt, ac ail adroddant ffeithiau syml a storiau'n gywir. Maent yn medru traethu am hanes Dewi Sant, Syr Ifan ab Owen Edwards, Florence Nightingale a Samuel Morse.

187. Mae gan ddisgyblion CA2 ddealltwriaeth aeddfed o gronoleg. Maent yn dwyn i gôf ffeithiau o'r cyfnodau a astudiwyd ganddynt yn dda iawn. Dangosant wybodaeth gadarn am gyfnod Oes Fictoria, gan gynnwys manylion am fywyd y frenhines a'r dargynfyddiadau a wnaed yn ystod y cyfnod.

188. Dengys disgyblion CA2 wybodaeth gadarn o hanes yr ardal, ac yn arbennig hanes porthladd Aberystwyth. Mae'r gwaith ymchwil yn bwrpasol ac yn dda, ac yn amlygu gallu'r disgyblion i uniaethu'n effeithiol gyda phobl oedd yn byw dan amgylchiadau anodd.

189. Mae disgyblion CA1 a CA2 yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ystod o ffynonellau ar gyfer eu hastudiaethau. Mae dealltwriaeth y disgyblion hyn o natur tystiolaeth cynradd ac eilradd yn ddatblygedig iawn.

190. Mae'r disgyblion yn gwneud defnydd da o TGCh yn eu hastudiaethau hanesyddol.

## Diffygion

191. Nid oes diffygion pwysig.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Testun balchder i ni fel gweithwyr, plant a llywodraethwyr yw derbyn canmoliaeth yr arolygwyr, sy'n cydnabod fod Ysgol Rhydypennau yn ysgol dda gyda nodweddion rhagorol ac sydd wedi parhau i wella ers yr arolygiad diwethaf. Pwysig hefyd yw nodi'r gydnabyddiaeth fod Ysgol Rhydypennau yn ysgol arbennig o hapus.

Mae'r adroddiad yn cydnabod ymroddiad yr athrawon, eu gwaith cynllunio gofalus a'r amrywiaeth o brofiadau a ddarperir i herio'r plant. Nodir fod medrau'r athrawon i hyrwyddo cymhelliant a dysgu'r plant yn rhagorol. Mae'n arwyddocaol iawn felly fod canran llwyddiant y gwersi yn arbennig o uchel. Canlyniad hyn yw fod cyflawniadau'r plant, e.e. yn y medrau allweddol yn dda ar draws yr ysgol.

Cydnabyddir fod yna lawer o weithdrefnau cadarn yn eu lle i warchod a hyrwyddo bywyd yr ysgol, sy'n cynnwys darpariaeth dda ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

Braf felly oedd cael cadarnhad fod yr ysgol yn sicrhau gwerth da am arian.

Gwnaed argymhellion i symud yr ysgol ymlaen ymhellach a'r gorchwyl nawr fydd llunio cynllun gweithredu ar gyfer gwneud hynny. Roeddem yn hynod falch fod y tîm arolygu yn rhannu ein pryder am gyflwr adeilad y Meithrin a fod gofod yn gyfyng oddi mewn i'r adeilad ar safle yr ysgol waelod.

Byddwn yn rhannu'r cynllun gyda'r rhieni a fe fydd adroddiad blynyddol y llywodraethwyr yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod pob blwyddyn.

# Atodiad A

## Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Rhydypennau |
| Math o ysgol | |
| Ystod oedran y disgyblion | 3-11 |
| Cyfeiriad yr ysgol | Bow Street, Ceredigion |
| Cod post | SY24 5AD |
| Rhif ffôn | 01970 828608 |
| Pennaeth | Mr Adrian Havard |
| Dyddiad penodi | Medi 2002 |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Awdurdod priodol | Mr Trefor Owen |
| Arolygydd Cofrestredig | Dr David Evans |
| Dyddiadau'r arolygiad | 3-5 Mai, 2005 |

# Atodiad B

## Data a dangosyddion yr ysgol

| Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp blwyddyn | M (call) | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
| Nifer y disgyblion | 26 | 23 | 25 | 23 | 19 | 25 | 26 | 25 | 192 |

| Cyfanswm nifer yr athrawon | | | |
|---|---|---|---|
| | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfwerth ag amser llawn (call) |
| Nifer yr athrawon | 8 | 0.5 | 8.5 |

| Gwybodaeth staffio | |
|---|---|
| Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig) | 20.8:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin | 13:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig | |
| Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig | 23.7 |
| Cymhareb athro (call): dosbarth | 1.1:1 |

| Canran y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tymor | D | CA1 | CA2 | Ysgol Gyfan |
| Hydref 2004 | 92.2 | | | 96.3 |
| Haf 2004 | 94 | | | 95.7 |
| Gwanwyn 2004 | 97 | | | 95.5 |

| | |
|---|---|
| Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim | 7% |
| Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad | 0% |

## Atodiad C

| **Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004** | | | Nifer y disgyblion yn B2 | | 19 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran y disgyblion ar bob lefel** | | | | | | | | |
| | | | D | W | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Cymraeg | Asesiad Athro | Ysgol | 0 | 5 | 21 | 48 | 26 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 1 | 2 | 11 | 64 | 23 | 0 |
| Cymraeg: llafaredd | Asesiad Athro | Ysgol | 0 | 5 | 5 | 64 | 26 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 1 | 2 | 12 | 63 | 22 | 0 |
| Cymraeg: darllen | Asesiad Athro | Ysgol | 0 | 10 | 16 | 58 | 16 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 1 | 1 | 17 | 59 | 22 | 0 |
| Cymraeg: ysgrifennu | Asesiad Athro | Ysgol | 0 | 26 | 11 | 63 | 0 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 1 | 3 | 20 | 65 | 11 | 0 |
| Mathemateg | Asesiad Athro | Ysgol | 0 | 0 | 31 | 58 | 11 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 11 | 63 | 24 | 0 |
| Gwyddoniaeth | Asesiad Athro | Ysgol | 0 | 0 | 31 | 58 | 11 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 10 | 66 | 22 | 0 |

| Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 2 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (mamiaith) yn ôl asesiad athro | | | |
|---|---|---|---|
| Yn yr ysgol | 68% | Yng Nghymru | 79% |

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

**Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol**
**Diwedd Cyfnod Allweddol 2:**

| **Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004__** | | | Nifer y disgyblion yn B6 | | | | | | | 29 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran y disgyblion ar bob lefel** | | | | | | | | | | | | |
| | | | D | A | F | W | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| Saesneg | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 4 | 20 | 34 | 40 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 6 | 16 | 45 | 31 | 0 |
| | Prawf/Tasg | Ysgol | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 17 | 56 | 21 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 2 | 1 | 0 | 5 | 12 | 38 | 40 | 0 |
| Cymraeg | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 7 | 3 | 7 | 10 | 43 | 30 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 4 | 18 | 51 | 25 | 0 |
| | Prawf/Tasg | Ysgol | 3 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 21 | 35 | 38 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 3 | 15 | 50 | 28 | 0 |
| Mathemateg | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 3 | 23 | 44 | 27 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 4 | 19 | 46 | 30 | 0 |
| | Prawf/Tasg | Ysgol | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 4 | 29 | 44 | 21 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 4 | 18 | 42 | 33 | 0 |
| Gwyddoniaeth | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 3 | 14 | 40 | 40 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | 13 | 49 | 35 | 0 |
| | Prawf/Tasg | Ysgol | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 73 | 11 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 | 9 | 48 | 39 | 0 |

| Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemtaeg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (mamiaith) | | | |
|---|---|---|---|
| yn ôl Asesiad Athro | | yn ôl Prawf | |
| Yn yr ysgol | 70% | Yn yr ysgol | 64% |
| Yng Nghymru | 71% | Yng Nghymru | 70% |

D Disgyblion yn cael eu heithrio dan drefniadau statudol o ran neu'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau heblaw am absenoldeb
W Disgylbion sy'n gweithio tuag at lefel 1

## Atodiad Ch

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

- Cynhaliwyd yr arolygiad gan dim o dri arolygydd a oedd yn bresennol yn yr ysgol am gyfanswm o wyth diwrnod
- Y pennaeth oedd yr enwebai
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolygiad gyda rhieni a'r CLl i drafod bywyd a gwaith yr ysgol
- Llenwyd 57 o holiaduron gan rieni a'u dadansoddi'n fanwl; roedd 96.4% ohonynt yn gadarnhaol
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth a'r staff sydd â chyfrifoldebau a chyda'r staff cynhaliaeth
- Archwiliwyd dogfennaeth yr ysgol a samplau o waith disgyblion
- Arsylwyd 35 o wersi neu sesiynau
- Archwiliwyd sampl o waith y disgyblion ar draws yr ystod gallu ym mhob grŵp blwyddyn
- Gwrandawodd yr arolygwyr ar sampl o ddisgyblion yn darllen
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda disgyblion am fywyd yr ysgol
- Arsylwyd ymddygiad disgyblion yn ystod amser egwyl, amser cinio ac ar ddiwedd a dechrau'r sesiynau ysgol
- Aeth yr arolygwyr i'r gwasanaethau ac i arsylwi ar weithgareddau allgyrsiol
- Cynhaliwyd trafodaethau ôl-arolygiad â'r staff a'r CLl

# Atodiad D

## Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

| Aelod Tîm | Cyfrifoldebau |
|---|---|
| Dr David Evans<br>Arolygydd Cofrestredig | Cyd-destun,<br>Crynodeb ac argymellion<br>Cwestiynau Allweddol 1, 2 5 a 6<br>Blynyddoedd Cynnar, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg |
| Mr Mervyn Lewis | Cwestiynau Allweddol 3, 4, a 7<br>Saesneg, mathemateg, hanes |
| Mr Gwilym Morris,<br>Arolygwr Lleyg | Cyfraniadau at gwestiynau 3, 4 a 7 |

## Cydnabyddiaeth

Dymuna'r arolygwyr ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.

**Contractwyr:**
Uned Gwasanaethau Arolygu Celtic
APCC
Heol Cyncoed
Caerdydd
Cymru
CF23 6XD

**Arolygiad dan Adran 10**
**Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**Ysgol Gynradd Rhydypennau**
**Bow Street,**
**Ceredigion, SY24 5AD**

# ADRODDIAD CRYNO I RIENI

**Dyddiad yr Arolygiad: 3-5 Mai, 2005**

**gan**

**Dr David Evans**
**W268/78706**

**Dyddiad: 8 Gorffennaf 2005**

**Dan rif contract Estyn: T/218/04P**

© Hawlfraint y Goron 2005

Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r Adroddiad hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na'r gost o atgynhyrchu ar eraill sy'n gwneud cais am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Rhydypennau fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr Adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant. Anfonir copi o'r crynodeb hwn at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. Gellir cael yr adroddiad llawn o'r ysgol.

Cynhaliwyd arolygiad o Ysgol Gynradd Rhydypennau rhwng 3-5 Mai, 2005. Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o arolygwyr, dan arweinyddiaeth Dr David Evans. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad cryno hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ond yn ei gyfanrwydd yn unig a chyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu air am air heb ei addasu, a bod y ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.
Mae'r graddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | da gyda nodweddion eithriadol |
| **Gradd 2** | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | nodweddion da yn gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | llawer o ddiffygion pwysig |

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfarthrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B 1 | B 2 | B 3 | B 4 | B 5 | B 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B 7 | B 8 | B 9 | B 10 | B 11 | B 12 | B 13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn y mae'r ysgol yn mynd i wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Gynradd Rhydypennau ym mhentref Bow Street, rhyw bedair milltir i'r gogledd o Aberystwyth ar y brif ffordd sy'n arwain i Fachynlleth. Mae'r ysgol ar ddau safle: y plant meithrin a'r dosbarth derbyn yn adeilad yr hen ysgol, sydd gryn bellter o'r prif adeilad; a gweddill y dosbarthiadau (Bl 1-6) yn y prif adeilad, a agorwyd ym 1973.

2. Disgrifir yr ardal breswyl y daw'r disgyblion ohoni fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Tua 18% o'r disgyblion sy'n dod o aelwydydd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Mae 7% o'r disgyblion yn derbyn cinio rhad ac am ddim a dynodwyd 55 (29%) a chanddynt anghenion addysgol arbennig (AAA), yn cynnwys 10 (5%) disgybl gyda datganiad o AAA.

3. Apwyntiwyd y pennaeth a'r dirprwy bennaeth newydd ym mis Medi 2002, a chynhaliwyd awdit o'r ysgol gyfan.

4. Ar hyn o bryd mae 192 o ddisgyblion ar y gofrestr.

5. Dynodir yr ysgol yn Gategori A. Golyga hyn mai'r Gymraeg yw'r prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol ond anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd.

6. Mae'r ysgol yn anelu at,"dyfu a dysgu gyda'n gilydd ac i ddatblygu pob unigolyn i'w lawn botensial mewn amgylchedd hapus a Chymreig."

7. Arolygwyd yr ysgol yn flaenorol ym mis Ebrill 1999.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

8. Mae prif flaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar gyfer 2005-2006 yn cynnwys:

- magu agwedd positif at Gymreictod a defnyddio'r Gymraeg;
- codi safonau ym mherfformiad y disgyblion;
- darparu digon o amser digyswllt i'r staff er mwyn datblygu ymhellach hunan-arfannu a gwella'r ysgol;
- datblygu cynlluniau gweithredol i fonitro ymddygiad yn yr ysgol gan ymgynghori â'r Cyngor Ysgol;
- rhoi sylw i'r adeiladau, a cheisio cael nawdd i gefnogi'r gwaith;
- cefnogi rhaglen hunan arfarnu a gwella'r ysgol i wneud yn siwr fod yna ddigon o adnoddau newydd i hyrwyddo'r cynlluniau gwaith yn llawn;

## Crynodeb

9. Mae Ysgol Gynradd Rhydypennau yn ysgol dda lle ceir ymdeimlad o bwrpas ac ymroddiad. Mae nodweddion eithriadol yn yr addysgu ac yn y gofal, yr arweiniad a'r cymorth a roddir i'r dysgwyr. Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad a chefnogaeth gadarn i'r athrawon ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

10. Mae'r tîm arolygu yn cytuno gyda barn yr ysgol mewn pedwar cwestiwn allweddol; lle mae gwahaniaeth, mae'r tim arolygu wedi rhoi gradd sydd yn uwch.

**Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd**

11. Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

| **Cwestiwn allweddol** | | **Gradd yr arolygiad** |
|---|---|---|
| 1 | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 2 |
| 2 | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 1 |
| 3 | Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 2 |
| 4 | Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr? | 1 |
| 5 | Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | 1 |
| 6 | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 2 |
| 7 | Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 2 |

**Safonau**

12. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

| **Gradd 1** | **Gradd 2** | **Gradd 3** | **Gradd 4** | **Gradd 5** |
|---|---|---|---|---|
| 25% | 71% | 4% | 0% | 0% |

13. Mae safonau'r disgyblion yn y gwersi yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ar gyfer Cymru gyfan.

14. Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Iaith, llythrennedd a chyfathrebu | 1 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol | 1 |
| Datblygiad mathemategol | 1 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | 1 |
| Datblygiad creadigol | 1 |
| Datblygiad corfforol | 1 |

15. Yn CA1 a CA2, yn y pynciau a arolygwyd, mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

| Pwnc | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Saesneg | - | Gradd 2 |
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Gwyddoniaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Dylunio a Thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Hanes | Gradd 2 | Gradd 2 |

16. Mae'r plant o dan bump oed yn gwneud cynnydd da gyda rhai nodweddion eithriadol yn y medrau allweddol siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu, defnyddio eu medrau rhifedd, yn eu defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn eu medrau addysg bersonol a chymdeithasol ac yn eu medrau creadigol.

17. Gwna'r disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig(AAA) gynnydd da, ac maent yn cyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer.

18. Yn CA1 a CA2, mae safonau a chynnydd disgyblion yn y medrau allweddol mewn siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig. Mae safonau medrau rhifedd a thechnoleg a gwybodaeth yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

19. Mae safonau hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn dangos cynnydd da. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol yn eu medrau personol, cymdeithasol a creadigol. Maent yn gwneud cynnydd da yn eu medrau datrys problemau.

20. Yn CA1 ar ddiwedd 2004, roedd perfformiad y disgyblion yn y pynciau craidd, sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn ôl asesiad athrawon tipyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r awdurdod lleol. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol hefyd yn is na'r canolrif. Fodd bynnag, mae canlyniadau y ddwy flynedd gynt yn uwch na chanlyniadau cenedlaethol ac yn uwch na chanlyniadau'r Awdurdod Addysg Lleol(AALl).

21. Yn CA2 yn 2004, roedd cyrhaeddiad y disgyblion yn y pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Ym mathemateg, roedd y cyfartaledd tipyn yn is na'r un cenedlaethol. O'u cymharu ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol yn y chwartel isaf ym mhob un o'r pynciau. Roedd perfformiad y bechgyn yn sylweddol is na pherfformiad y merched yn y pynciau craidd. Fodd bynnag, mae canlyniadau y ddwy flynedd gynt yn dangos cynnydd cyson. Nodir bod canlyniadau'r profion ac asesiadau athrawon y llynedd wedi eu heffeithio'n fawr gan y ganran o ddisgyblion ag AAA yn y dosbarth.

22. Mae agweddau disgyblion at eu gwaith yn dda. Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion yn dda iawn ac yn gryfder yn yr ysgol.

23. Trwy'r ysgol, mae dealltwriaeth disgyblion o faterion cyfle cyfartal yn dda. Maent yn parchu amryfaliaeth o fewn credoau a thradodiadau eraill mewn cymdeithas.

24. Cyfartaledd y presenoldeb ar gyfer y thri tymor cyn yr arolwg yw 95.6 %. Mae'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

**Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

25. Barnwyd bod ansawdd yr addysgu a arsylwyd fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 31% | 66% | 3% | 0% | 0% |

26. Mae canran y gwersi sy'n dda neu'n well yn llawer uwch na tharged LlCC o 50% o wersi yn dda neu yn well.

27. Yn y gwersi a farnwyd yn dda gyda rhai nodweddion eithriadol, mae'r nodweddion yn cynnwys cyflwyniadau eglur ar ddechrau gwers, amrywiaeth pwrpasol o dechnegau a strategaethau addysgu, disgwyliadau uchel, cyflymdra heriol yn y gwersi, gwybodaeth dda o'r pynciau, rheolaeth dosbarth effeithiol iawn, holi hyderus a cydweddu rhagorol rhwng y gweithgareddau ag anghenion disgyblion unigol.

28. Mae ansawdd yr asesu yn dda gyda rhai nodweddion eithriadol. Mae'r asesiadau'n gywir a chyson. Mae athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac mae systemau hynod o drefnus a phwrpasol iawn yn eu lle i sicrhau bod cynnydd y disgyblion yn cael ei gofnodi'n gyson.

29. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd dda. Rhoddant ddarlun gonest a chywir o gyflawniad a datblygiad y disgyblion unigol.

30. Mae'r cwricwlwm ar gyfer plant dan bump oed yn dda gyda nodweddion eithriadol ar draws y chwe maes.

31. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu'r disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn cwrdd â gofynion statudol. Mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu cynhwysiad cymdeithasol ymhob agwedd o fynediad a chyfleoedd cyfartal. Ceir darpariaeth da ar gyfer disgyblion ag AAA.

32. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda iawn i ganllawiau ACCAC parthed Addysg Bersonol a Chymdeithasol(ABCh).

33. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda iawn.

34. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth byd eang yn dda.

35. Mae'r cwricwlwm Cymreig yn elfen amlwg yn y ddarpariaeth gyda phwyslais da iawn ar y gymuned leol. Mae'r berthynas gyda sefydliadau lleol yn dda iawn. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n gyson gyda'r rhieni ac mae'r bartneriaeth gyda hwy yn dda iawn.

36. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr yn dda iawn. Mae disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac mae perthynas dda rhyngddynt ag athrawon. Mae'r ysgol yn gymuned glos, gydag ethos gofalgar a chyfeillgar.

37. Mae lles y disgyblion yn flaenoriaeth uchel gan yr ysgol. Mae'r berthynas dda iawn rhwng yr ysgol a mudiadau yn y gymuned yn hyrwyddo iechyd a diogelwch y disgyblion mewn modd cadarnhaol, ac yn cyfrannu'n dda iawn at faes ABCh.

38. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda iawn. Derbynia'r disgyblion ag AAA gefnogaeth dda iawn gan yr athrawes arbenigol a chynorthwy-yddion.

39. Mae'r polisiau ar gyfer addysg rhyw, ymarfer tân, cyfleoedd cyfartal a chydraddoldeb hiliol wedi'u sefydlu'n gadarn ac yn hysbys i'r staff.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

40. Caiff yr ysgol ei rheoli'n dda iawn. Mae rheolaeth y pennaeth yn bwrpasol, uchelgeisiol ac yn effeithiol iawn. Rhydd ymdeimlad cryf o gyfeiriad pendant i waith yr ysgol. Mae rôl y dirprwy hefyd wedi ei ddiffinio'n eglur; mae'n magu sgiliau rheolaethol da o gymorth amlwg i'r pennaeth. Crewyd amgylchedd o ymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth ymhlith y staff i gyd.

41. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda iawn i flaenoriaethau cenedlaethol ac mae pwyslais cyson ar gynhwysiad cymdeithasol yn nodwedd arbennig ym mywyd yr ysgol.

42. Mae staff hŷn sydd â chyfrifoldebau arweinyddiaeth a rheolaeth yn cyfrannu'n effeithiol iawn i wella safonau ac i ddatblygiad yr ysgol yn gyffredinol.

43. Mae gan aelodau o'r corff llywodraethu ddealltwriaeth dda o'u rôl ac o'u cyfraniad i gynllunio strategol yr ysgol. Dangosant ddiddordeb brwd yn eu gwaith a chyflawnant eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

44. Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff wedi ymrwymo i wella safonau. Caiff yr holl staff eu cynnwys yn y broses hunanarfarnu, ac mae'r llywodraethwyr hefyd yn chwarae rhan ymarferol mewn monitro gwersi. Mae rôl yr arweinwyr cwricwlwm yn datblygu'n dda.

45. Gwneir dadansoddiad manwl o ystod o ganlyniadau profion disgyblion. Gwneir defnydd da o'r dadansoddiad hyn i wella'r addysgu a'r dysgu.

46. Mae'r CDY yn ddogfen ddefnyddiol, ond mae diffyg manylder yn y ddogfen parthed blaenoriaethau.

47. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gryno, yn eglur, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

48. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

49. Mae gan yr ysgol gyflenwad da o staff addysgu ac mae ganddynt gymwysterau priodol. Gwneir defnydd da ar draws yr ysgol o arbenigedd athrawon wrth iddynt gyfnewid dosbarthiadau ar gyfer meysydd addysgu.

50. Gwneir defnydd da iawn o'r athrawes sy'n cefnogi disgyblion ag AAA. Mae'r cynorthwy-yddion dosbarth yn cael eu defnyddio'n bwrpasol bob amser. Mae staff ategol yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol iawn.

51. Mae gan yr ysgol gyflenwad digonol o adnoddau ar gyfer pob oedran a phwnc; mae llawer o ansawdd da ac maent wrth law. Mae'r llyfrgell newydd yn gaffaeliad arbennig i'r ysgol.

52. Mae'r ddwy safle yn cynnig amgylchedd diogel a dymunol iawn i ddisgyblion. Serch hynny, mae gwendidau i'r adeiladau ar y ddwy safle: yn yr hen ysgol mae darpariaeth toiledau yn annigonol ac yn anaddas; mae damprwydd yn treiddio'r muriau a'r llawr yn yr hen ysgol; yn y prif adeilad, mae prinder gofod mewn rhai dosbarthiadau yn llyffethair i ymdrechion yr athrawon a'r disgyblion i gyrraedd y safonau uchaf; mae'r prinder mewn cyflenwad toiledau i'r staff yn anaddas yn y prif adeilad.

53. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 parhau i gynnal y safonau da ac ymateb i'r her o dargedu rhagoriaeth ar draws yr ysgol;

A2 cynnal yr arfer dda o addysgu;

A3 datblygu cyfundrefn hunanarfarnu'r ysgol ymhellach;

A4 parhau gyda'r ymdrechion i wella safonau'r adeiladau;

**Cydnabyddiaeth**

Dymuna'r arolygwyr ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.